



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Canllaw i ddefnyddwyr ar  
faterion sy'n deillio o osodiadau  
Inswleiddio Waliau Ceudod (CWI)  
mewn eiddo yng Nghymru**



## Cyngor i ddefnyddwyr sy'n amau bod y gwaith a wnaed i inswleiddio waliau ceudod eu heiddo yn ddiffygiol

Os cawsoch waith inswleiddio waliau ceudod (CWI) ei wneud o dan gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu Rwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO), a'ch bod yn amau bod y gosodiad wedi methu neu nad ydych yn siŵr a yw wedi achosi cyddwyso neu lwydni yn eich eiddo, dylech ddilyn y camau isod.

**Cam 1:** Cysylltwch â'r gosodwr a ymgwymerodd â'r gwaith inswleiddio yn y lle cyntaf. Dylai'r gosodwr gysylltu â chi wedyn i gynnal archwiliad, a chywiro'n brydlon unrhyw ddiffygion yn ôl yr angen. Os nad ydych yn siŵr a wnaed y gwaith dan gynllun gan Lywodraeth Cymru, gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru drwy e-bost i [FuelPovertyandEnergyEfficiency@gov.wales](mailto:FuelPovertyandEnergyEfficiency@gov.wales). Mae ein cofnodion yn gyfyngedig i gynlluniau Llywodraeth Cymru felly, er bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'ch helpu, efallai na fyddwn yn gwybod o dan ba gynllun y cyflawnwyd y gwaith.

**Cam 2:** Os yw busnes y gosodwr wedi mynd i'r wal neu os nad yw'n mynd i'r afael â'ch pryderon, dylech yna gysylltu â darparwr y gwarant. Gan ddibynnu ar drefniadau'r cynllun adeg y gwaith inswleiddio, gall y gwarant, os oes gennych un, fod wrth ystod o ddarparwyr. Mae darparwyr gwarant sy'n benodol i CWI a osodwyd o dan ECO ar gael ar wefan Ofgem yn [www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/eco3-appropriate-guarantees](http://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/eco3-appropriate-guarantees).

Ar gyfer inswleiddio a osodwyd o dan gynlluniau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ôl 2013, mae'n ofynnol bod gwybodaeth cynnal a chadw a gwarant 25 mlynedd priodol yn cael eu rhoi ar ôl cwblhau'r gwaith. Yng Nghymru, mae canran fawr o warantau yn cael eu cadw gan yr Asiantaeth Gwarantau Inswleiddio Waliau Dwbl (CIGA). Bydd CIGA yn gallu canfod a roddwyd gwarant i gartref defnyddiwr, fodd bynnag, ers 2012 mae nifer o warantau a gefnogir gan yswiriant wedi'u cyhoeddi a dylech holi darparwyr eraill os nad oes gwarant CIGA yn bodoli. Gellir cysylltu â CIGA ar 01525853300 neu drwy fynd i'w gwefan <https://ciga.co.uk/contact-us/>.

## Cyngor i ddefnyddwyr nad ydynt yn fodlon â chanlyniad hawliad gwarant

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad hawliad gwarant, gallech apelio o dan yr ombwdsmyrn neu'r broses gymrodeddu berthnasol. Yn achos CIGA, gellir dechrau'r broses gymrodeddu ar gyfer dadleuon pan fydd llythyr wedi'i gyhoeddi sy'n nodi diwedd y broses hawlio. Mae manylion

proses cynllun cymrodeddu CIGA i'w gweld yn [ciga.co.uk/independent-arbitration-dispute-process/](http://ciga.co.uk/independent-arbitration-dispute-process/). Yn achos darparwyr gwarantau amgen a gefnogir gan yswiriant, gellir ceisio gwneud iawn drwy'r Ombwdsmyrn Gwasanaethau Ariannol.

## Cyngor i ddefnyddwyr sydd heb warant am waith inswleiddio waliau ceudod

Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff gwarant ei rhoi ar ôl cwblhau'r gosodiad. Mewn achosion lle nad oes gwarant, efallai y bydd angen i chi dalu cost gwaith adferol. Dylech gofio efallai nad echdynnu'r CWI yw'r ateb cywir bob amser ac argymhellir cyngor proffesiynol gan syrfëwr adeiladu. Efallai y bydd benthyciad Gwella Cartrefi

Llywodraeth Cymru o gymorth i chi o dan yr amgylchiadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yma [Gwneud caiso am fenthyciad ar gyfer gwella tai](#) I [LLYW.CYMRU](#).

## Cyngor i ddefnyddwyr y mae cwmni rheoli hawliadau wedi cysylltu â hwy

Mae'r rhan fwyaf o waith CWI, sy'n cael ei osod mewn cartrefi addas, o safon dda. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle gall cwmni rheoli hawliadau (CMC) gysylltu â chi dros y ffôn neu'n bersonol (o ddrws i ddrws), i ddweud y gallant gael iawndal ar eich rhan ar gyfer CWI sydd wedi'i osod yn anghywir neu sydd wedi achosi difrod yn fewnol (lleithder/llwydni etc) neu ddifrod strwythurol i'ch eiddo. Gallwch alw ar gyfreithiwr hefyd i weithredu ar eich rhan mewn unrhyw achos.

Er y gall y cwmni addo iawndal, dylech ystyried y llwybr hwn yn ofalus iawn. Dylech ymchwilio i'r cwmni cyn ymrwmo i unrhyw wasanaethau a gynigir gan fod achosion lle nad yw'r gwasanaethau hyn yn ddilys. Dylech hefyd fod yn ymwybodol, os na rhoddir gwybod am hawliad yn erbyn y warant berthnasol a bod y cwmni hawliadau sy'n ymwneud â'r hawliad yn methu â mynd ar drywydd hawliad yn effeithiol, gallai diffyg gweithredu ar ran perchennog y tŷ annilysu'r warant oherwydd diffyg mesurau effeithiol i atal unrhyw ddifrod rhag gwaethygu.

Darllenwch y canllawiau canlynol cyn i chi ystyried ymrwmo i gytundeb gyda CMC:

- gwrthod mynediad i alwr rhag mynd i mewn i'ch eiddo cyn gwirio pwy ydyw a manylion adnabod y cwmni;
- gofyn am enw a manylion y cwmniau ac, os nad ydych am gael eu gwasanaethau, gofynnwch iddynt roi'r gorau i gysylltu â chi;
- gwirio a yw cynrychiolydd o gwmni Cyfreithiwr yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithiwr (SRA);
- gofyn am esboniad clir o unrhyw daliadau, comisynau a ffioedd, gan gynnwys ffioedd "optio allan" a allai fod yn daladwy os byddwch yn newid eich meddwl wedyn. Lle y bo'n bosibl, dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig;
- osgoi trosglwyddo eich manylion personol neu unrhyw wybodaeth ariannol (manyion banc, rhif yswiriant gwladol neu'ch gwarant CWI);
- gwrthod llofnodi unrhyw ddogfennau ar garreg eich drws (hyd yn oed am ddyfynbris);

- gwrthod trosglwyddo unrhyw arian cyn sicrhau eu bod yn gwmni cyfreithlon neu cyn i unrhyw waith y cytunwyd arno ddechrau;
- sicrhau eich bod yn darllen y print mân ar unrhyw ddogfennau y gofynnir i chi eu llofnodi;
- rhoi gwybod am unrhyw weithgaredd amheus i'r corff gwarant perthnasol/Safonau Masnach/Cyngor ar Bopeth.

Os ydych wedi cael unrhyw anawsterau gyda CMC neu gyfreithiwr, gallwch gysylltu â'r sefydliadau canlynol a allai gynnig cymorth pellach:

- **CIGA** fel un o'r darparwyr gwarant, sy'n rhoi gwarantau ar gyfer CWI yn y DU ac Ynysoedd y Sianel. Mae rhestr o osodwyr cofrestredig CIGA ar gael i'r cyhoedd yn: [ciga.co.uk/registered-installers/](http://ciga.co.uk/registered-installers/). Gallwch hefyd godi unrhyw bryderon yn: [concerns@ciga.co.uk](mailto:concerns@ciga.co.uk). Nodwch mai dim ond i ddefnyddwyr sydd â gwarant CIGA y mae cymorth ar gael drwy'r llwybr hwn.
- **Safonau Masnach**, y gellir cysylltu â nhw ar **03454 040506**. Gallwch hefyd ddod o hyd i'ch swyddfa Safonau Masnach leol drwy fynd i: [www.gov.uk/find-local-trading-standards-office](http://www.gov.uk/find-local-trading-standards-office)
- **Canolfan Cyngor ar Bopeth**, y gellir cysylltu â hi drwy ymweld â: Cysylltu â ni ([citizensadvice.org.uk](http://citizensadvice.org.uk))

- **Ofgem**, sy'n gweinyddu'r cynllun ECO. Os oes gennych gwynion am safon CWI a osodwyd o dan ECO, mae gwybodaeth ar gael yn: [www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/complaints-about-standard-cavity-wall-insulation-installation](http://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/complaints-about-standard-cavity-wall-insulation-installation). Cysylltwch ag Ofgem yn: [eco@ofgem.gov.uk](mailto:eco@ofgem.gov.uk)
- SRA, lle gallwch ddarganfod a yw cwmni'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd. Mae gwybodaeth ar gael yn: [www.sra.org.uk/consumers/solicitor-check.page](http://www.sra.org.uk/consumers/solicitor-check.page). Gallwch hefyd drafod pryderon ynghylch cyfreithwyr gyda SRA yn [www.sra.org.uk/consumers/problems/](http://www.sra.org.uk/consumers/problems/)

I gael rhagor o gyngor ar gynlluniau effeithlonrwydd ynni'r Llywodraeth, gallwch hefyd ymweld â gwefan Simple Energy Advice sydd ar gael yn: [www.simpleenergyadvice.org.uk/](http://www.simpleenergyadvice.org.uk/)